



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB
Maer: Cyng. Laura Fielding **Dirprwy Faer: Cyng. Alun Rhys Jones**

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, MEDI'R 6^{ed} 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb - (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Gorffennaf y 19^{eg} a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth gan Dŵr Cymru am gais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch: Rhan Ddwyreiniol safle Gorwel
7. Derbyn gwybodaeth am gais Prosiect Maes Chwaraeon Aml-ddefnydd Llanfairfechan i'r Gronfa Adfywio Cymunedol
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer marchnadoedd crefft yr hydref
9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Nos Calan Gaeaf Llanfairfechan 2023
10. Derbyn gwybodaeth am sesiynau Gwasanaeth Ieuenctid Conwy a chymeradwyo'r cynllun taliadau
11. Derbyn gwybodaeth am yr Arolwg Gwasanaethau Cynaliadwy a chymeradwyo cynlluniau am stondin arolwg yn y Co-op.
12. Rhannu gwybodaeth am Gofrestr Buddiannau'r Aelodau
13. Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Ariannol Gorffennaf ac Awst 2023
14. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Medi 2023

Taliadau i'w cyflwyno
1. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Medi 2023 £4700
2. Amazon Business – blychau popcorn £13.98
3. Sional – Baner y Farchnad – £15.00
4. Menter Iaith – cyfieithiadau – £364.00
5. CBSC – Sgipiau Cymunedol - £528.00
6. Omega Ltd – gwasanaethu'r systemau CCTV - £96.00
Taliadau ôl-ddyddiedig
7. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Awst 2023 £4700
8. Nisa Lluniaeth ar gyfer y diwrnod Hwyl i'r Teulu a dalwyd gyda siec £54.70
9. Bounce a Lot Castle Hire – Diwrnod Hwyl i'r Teulu - £90.00

15. Trafod materion cynllunio

0/51014 Tyddyn Angharad Uchaf, Ffordd y Dyffryn, Llanfairfechan LL33 OES. Dymchwel sied goed adfeiliedig presennol a chodi sied goed a storfa newydd ar y safle.

0/50999 Tu Hwnt I'r Afon, 9 Y Clos, Llanfairfechan LL33 0AG Cais i leihau ffenest bresennol yn wal talcen mewnlenwi newydd y garej presennol er mwyn gosod ffenestr fetel Crittall i gyd-fynd â'r holl ffenestri eraill.

0/50988 Fron Park, Ffordd yr Orsaf, Llanfairfechan LL33 0AS Tocio 1 coeden ewcalyptws

16. Derbyn gohebiaeth
17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
18. Derbyn materion brys i'w trafod

COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN

NOS FERCHER, MEDI'R 6^{ED} 2023

Yn Bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Maer Laura Fielding; Cyng. Penny Andow (ar Zoom); Cyng. Sharne-Marie Bellis; Cyng. Rob Jewell (ar Zoom); Cyng. Chris Jones; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg

Clerc y Dref Jayne Neal

1. Estynnodd y Dirprwy Faer, Alun Rhys Jones, groeso i bawb i'r cyfarfod

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng. Leena Farhat; Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Gareth Jones; Cyng. Nia Jones; Cyng. Elgan Owen;

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu) – Dim wedi'u datgelu

Cytunwyd y gellid recordio'r cyfarfod at ddibenion cymryd cofnodion.

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Roedd dau breswlydd yn bresennol i dderbyn gwybodaeth, felly fe benderfynwyd symud y mater canlynol ar yr agenda i'w drafod yn gynharach:

Eitem 6 Derbyn gwybodaeth gan Dŵr Cymru am gais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch: Rhan Ddwyreiniol safle Gorwel

Gwybodaeth a dderbyniwyd:

1. *Capasiti'r system garthffosiaeth a gollyngiadau*

Mae gan Dŵr Cymru un Gorlif Carthffosiaeth Gyfun (CSO) yn Llanfairfechan, o dan y cyfeirnod CG0077101. Mae wedi'i leoli gryn bellter o ystâd dai Gorwel; fodd bynnag mae'r rhwydwaith carthffosiaeth yn bwydo i mewn iddo. Rydym yn cyhoeddi ein data ar-lein pob blwyddyn, dilynwch y ddolen hon i wybod mwy dwrcymru.com/combined-storm-overflows

Gan ddwyn i ystyriaeth y capasiti, nid oes unrhyw risgiau gorlifo hydrolig sylweddol yn nalgylch Llanfairfechan. O ran ein cais cyn cynllunio, byddwn yn ystyried llifau budr i'r rhwydwaith garthffosiaeth gyhoeddus yn unig gan na chaniateir i unrhyw lif dŵr wyneb gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r rhwydwaith garthffosiaeth gyhoeddus.

2. *Arolwg cyflwr y system carthffosiaeth yn ystâd dai Gorwel*

Cynhaliwyd arolwg CCTV yn 2012 ar gyfer dalgylch Gorwel. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi fel rhan o'n proses atgyweiriadau neu gynnal a chadw adweithiol. Mae carthffosydd yn glanhau eu hunain yn eu hanfod ac nid oes angen fawr ddim o waith cynnal a chadw, os o gwbl, i sicrhau eu bod yn parhau i ddraenio'n effeithiol. Gan hynny, gan ystyried y goblygiadau o ran cost i'r cwsmeriaid, mae ein rheoleiddwyr OFWAT yn caniatáu inni gynnal gwaith cynnal a chadw ar sail adweithiol felly dyna pam ein bod ni'n cynnig gwasanaeth adweithiol 24 awr.

3. *Cyflwr a Chapasiti'r system dŵr glaw a Gollyngiadau*

Dydyn ni ddim yn meddu ar yr wybodaeth hon gan nad ydym yn monitro gollyngiadau dŵr wyneb.

4. *Diogelwch y cyflenwad dŵr yfed; mae'r methiannau yn ystod y 24 mis diwethaf o ran y seilwaith yn cynnwys methiannau'n ymwneud â phibellau a phympiau sydd ynghlwm â'r rhwydwaith yn Llanfairfechan a'r rhwydwaith sy'n bwydo Llanfairfechan*

Mae'r system dŵr yfed yn ddŵr o safon sydd wedi'i gyflenwi gan un o weithfeydd trin dŵr mwyaf newydd Dŵr Cymru, ac fe gaiff yr adnoddau a'r gwasanaethau cyflenwi dŵr eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn cyflenwad o ddŵr yfed glân.

Mae oddeutu 1743 o dai yn Llanfairfechan, ac maen nhw'n derbyn eu cyflenwad dŵr o Weithfa Trin Dŵr (WTW) Bryn Cowlyd, Dolgarrog. Yn ystod y 24 mis diwethaf, rydym wedi cwblhau 23 atgyweiriad ar y prif gyflenwad dŵr yn y dalgylch. Roedd 22 yn sgil pibellau'r prif gyflenwad yn byrstio ac 1 difrod i bibellau'r prif gyflenwad dŵr wedi'i achosi gan drydydd parti.

Mae gennym ni ddwy orsaf pwmpio dŵr a chronfa wasanaeth yn y dalgylch hwn, sydd wedi'u rhestru isod.

1. *Gorsaf Pwmpio Dŵr Llanfairfechan, sy'n cyflenwi cronfa wasanaeth ac sydd ddim yn cyflenwi ein cwsmeriaid yn uniongyrchol, felly does dim generadur ar y safle.*

2. *Gorsaf Pwmpio Dŵr Newry, sy'n pwmpio dŵr i 15 o dai. Mae gan yr Orsaf Pwmpio Dŵr hon generadur ar y safle, felly ni chaiff ei effeithio gan doriadau pŵer a does gennym ni ddim cofnod o unrhyw fethiannau o ran y pwmp.*

3. *Cronfa Wasanaeth Teirhyd sydd â storfa o ddŵr gall bara am 30 awr.*

Dengys gwybodaeth bellach y bu 67 gollyngiad yn 2022 a 42 yn y flwyddyn flaenorol felly mae pryderon bod y ffigwr yn cynyddu. Roedd y preswylwyr yn anfodlon gydag ymateb Dŵr Cymru ac fe wnaethon nhw ddweud y dylid cwblhau arolwg newydd gan nad oes yr un wedi'i gyflawni ers 2012. Fe wnaethon nhw sôn y byddai unrhyw gerbydau peiriannau caiff eu defnyddio ar gyfer y gwaith adeiladu yn rhoi straen ychwanegol ar y seilwaith yn yr ardal. Cafodd ei grybwyll eto y dylid defnyddio safleoedd tir llwyd cyn amharu ar safleoedd maes glas. Mynegwyd pryderon eto ynghylch na fyddai'r tai wir yn fforddiadwy i'r bobl leol. Mae'r rhain i gyd yn bwyntiau y bu i'r Cyngor Tref eu cynnwys yn eu hymateb i'r ymgynghoriad cyn cynllunio a gellir rhannu'r rhain dros e-bost yn ôl y gofyn. Defnyddir yr wybodaeth gan Dŵr Cymru fel tystiolaeth pan fyddai'r mater cynllunio'n dychwelyd a phan fyddai angen datganiad pellach gan y Cyngor Tref. Clerc i e-bostio Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau CBS Conwy i ofyn am wybodaeth ynghylch pryderon o ran dŵr wyneb yn yr ardal.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5 Derbyn a chymeradwyo cofnodion a'r Rhestr Weithredu

Doedd dim rhestr weithredu wedi'i pharatoi ac fe gaiff ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Soniwyd y dylid datgan yn y cofnodion os cân nhw eu recordio.

Eitem 4 Croesfan Sebra – Clerc i drefnu ymweliad safle gyda CBS Conwy

Eitem 5a Rhestr Weithredu 10 – Gwybodaeth wedi'i derbyn gan Asiantaeth Cefnffyrdd Cymru'n cynnig CLG o 5 mlynedd ar gyfer ardal Gardd Ffordd yr Orsaf.

Eitem 5a Gwrychoedd wedi gordyfu ar Ffordd Mount – clerc i holi os ydy hyn wedi'i ddatrys.

Eitem 15 Grŵp Ymgysylltu gyda Chleifion y Feddygfa – caiff pigiadau'r eryr eu cynnig i bobl 65 oed a hŷn bellach

Eitem 5a. Rhestr Weithredu 8 – tipio anghyfreithlon. Clerc i anfon manylion at y Cynghorwyr Sir a mynd i'r afael â'r cais dros e-bost

Eitem 14.5 Parc Sglefrfyrddio – mae'r rampiau newydd wedi'u gosod ac mae angen talu amdany'n nhw

Eitem 16 1 Pont droed y tu ôl i faes parcio'r banc. Clerc i fynd i'r afael â hyn a chopio'r Maer i mewn i'r e-bost oherwydd fe gytunwyd bod y sefyllfa wedi gwaethygu'n sylweddol ac mae'n fater iechyd a diogelwch erbyn hyn.

Cynigwyd gan y Cyng. C Roberts Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn gwybodaeth am y cais gan Brosiect Maes Chwaraeon Aml-ddefnydd Llanfairfechan i'r Gronfa Adfywio Cymunedol.

Darllenwyd cais drafft ar gyfer Prosiect Hamdden Traeth y Gorllewin Llanfairfechan

Y gobaith ydy y byddai'n darparu cyfleusterau o safon a fyddai'n diwallu anghenion preswylwyr Llanfairfechan yn ogystal ag ymwelwyr i'r dref.

1.Llain 1 Ailwampio i fod yn Faes Chwaraeon Aml-ddefnydd.

2.Llain 2 Ailwampio i fod yn Gae Hyfforddi Pêl-droed.

3. Newid y llifoleuadau ar y Meysydd Chwaraeon Aml-ddefnydd. Mae'r goleuadau'n anghynnaladwy ar hyn o bryd ac felly fe gaiff llifoleuadau LED eu gosod i gynnig ateb sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.

4.Datblygu ardal pêl-droed am ddim ar y glaswellt ger y Maes Chwaraeon Aml-ddefnydd.

5. Hydref 2024 Sesiynau Hamdden Cymunedol – Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan a gweithwyr proffesiynol Ffit Conwy yn cynnig sesiynau penodol i arddangos y cyfleusterau newydd.

Bydd hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan a'r Cyngor Tref. Fel rhan o'r prosiect mae bwriad i ddatblygu'r rhan glaswellt ger y Maes Chwaraeon Aml-ddefnydd fel ardal pêl-droed anffurfiol. Byddai hyn yn fodd i'r Clwb Pêl-droed gadw eu cae mewn gwell cyflwr a chynnig man chwarae ychwanegol i breswylwyr ac ymwelwyr. Byddai'r lawnt fowlio wedi'i hamddiffyn gan ffens uchel felly ni fydd unrhyw broblemau gyda pheli coll ac ati. Roedd cytundeb mewn egwyddor ar gyfer y cynnig drafft gydag un awgrym ychwanegol i ddarparu Maes Chwaraeon Aml-ddefnydd / cae hyfforddi pêl-droed o dan do, gan fod y cynllun cymunedol yn crybwyll hyfforddiant pêl-droed o dan do. Clerc i weithredu ar y cyd â Chlwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan.

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer marchnadoedd crefft yr hydref

Yn sgil salwch hirdymor staff, cynigwyd y dylid cymeradwyo cytundeb am staff brys ar gyfer y marchnadoedd o fis Medi hyd at fis Rhagfyr. Mae pryderon ynghylch cynnal y cyfathrebu o safon a fu'n rhan sylweddol o lwyddiant y marchnadoedd. Mae'r swyddog prosiect wedi llwyddo i ennill enw da iawn a dydyn ni ddim eisiau colli hyn. Mae perthynas arbennig wedi'i feithrin gyda'r stondinwyr, ac mae gennym ni restr aros o gyflenwyr. Roedd y pwyllgor staffio wedi bwrw golwg ar opsiynau a byddan nhw'n cysylltu gyda chontractwr hunangyflogedig i arwain y diwrnodau marchnad a gweithredu fel swyddog cyswllt ar gyfer y stondinwyr. Clerc i lunio'r gwaith papur a gweithredu'r cynllun hwn. Caiff hyn ei dalu amdano gyda'r arian sydd wedi'i gronni'n uniongyrchol o daliadau'r stondinwyr a ni chaiff y taliadau hyn eu cynnwys yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Mae'r stondinau'n £10 yr un ac mae oddeutu 30 stodin ym mhob marchnad fel arfer. Mae cost y ganolfan yn £120 felly mae yna arian yn weddill

a allai dalu am hyn. Soniwyd y byddai hyn yn fodd o gynnig cymorth gwell i'r aelod o staff dan sylw er mwyn tawelu eu meddwl ynghylch y marchnadoedd yn ystod eu habsenoldeb a gwella'r ddyletswydd gofal i staff y Cyngor Tref. Cynigiodd y Pwyllgor Staffio'r opsiwn hwn a bu i'r Cyngor Tref llawn ei gymeradwyo'n unfrydol. Clerc i wirio'r goblygiadau cyfreithiol a llunio'r gwaith papur ar y cyd â'r pwyllgor staffio. Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Nos Calan Gaeaf Llanfairfechan 2023 Bydd y Cyngor Tref yn cydweithio'n agos iawn gyda phrosiect Llais y Lle i gynnig digwyddiad Nos Calan Gaeaf / Halloween, gyda than gwyllt ar gyfer dydd Mawrth, Hydref yr 31^{ain} 2023, lle mae'r Gymraeg yn ganolog.

6yh cyfarfod yng Ngerddi Fictoria am sudd afal cynnes a byrbrydau

6:30yh ymgynnull ar gyfer yr orymdaith at y lanfa

- Bydd reidiau ffair George yno (amrywiaeth cyfyngedig yn sgil y bont isel)
- Rydym yn gobeithio y bydd y Seagrass, y Pafiliwn a'r Clwb Hwyllo ar agor i ddarparu diodydd a lluniaeth
- Bydd Gwasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru'n bresennol

7yh arddangosfa tân gwyllt

Cydweithio gyda Llais y Lle i greu llusernau papur ar gyfer yr orymdaith yn y cyfnod cyn y digwyddiad. Bydd artistiaid o brosiect Llais y Lle yn bresennol ar y noson.

9a Ffair Nadolig

Wedi'i drefnu dros dro ar gyfer dydd Sul, Rhagfyr y 10^{fed} o 12yp tan 6yh. Gweithgareddau dros dro:

- Band Hyfforddi Porthaethwy am 12yp y tu allan i'r neuadd o dan y gasebo (£50)
- Perfformiad Choirs for good am 1yp (£80)
- Band Pres Beulah am 2yp (£50)
- Ghostbusters am 3yp (£50)
- Crazy Catz am 4yp (anhysbys)
- Carolau o amgylch y goeden Nadolig am 5:30yp (cydweithio gyda thiwtor canu i benderfynu ar ganeuon gan gynnwys carolau Cymraeg)
- Peintio Wynebau gan Tammy – cytunwyd y bydd hyn yn yr ystafell Lloyd Hughes eleni (2yp tan 5yp)
- Ffair hwyl ar y stryd
- Gwasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru

Clerc i fwrw iddi gyda'r syniadau ac adrodd yn ôl mewn cyfarfodydd wrth i'r digwyddiad ddatblygu.

9 b Goleuadau Nadolig

Bu i drafodaeth ynghylch y mater hwn arwain at benderfyniad i lunio a rhannu arolwg brys ar Facebook yn yr wythnos nesaf er mwyn pwyso a mesur barn y preswylwyr. Gallai hyn fod yn fater dadleuol a bydd angen ei ddatrys yn ein cyfarfod ar Fedi'r 27^{ain}. Soniodd un o'r cynghorwyr nad oedd y goleuadau wedi llwyddo i gael yr effaith ddymunol. Cytunwyd ei fod yn bwysig casglu barn y preswylwyr er mwyn ein helpu i lywio ein penderfyniad. Mae yna heriau sylweddol ynghlwm â hyn yn sgil y newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Mae'n rhaid yswirio'r holl oleuadau uwchben y briffordd o dan y rheoliadau a'u gosod gan gontractwr sy'n meddu ar y tystysgrifau priodol.

Cytunwyd y byddai'r arolwg yn crybwyll y canlynol:

1. Dim goleuadau o amgylch y pentref, dim ond goleuo'r goeden Nadolig mawr y tu allan i'r Neuadd Gymunedol.

AMCAN GOST: £300

2. Coed/goleuadau solar ar y polion lamp o amgylch y pentref. Pris yn cynnwys gosod, tynnu a chynnal a chadw'r goleuadau gan Plantscape.

AMCAN GOST: £3500

3. Yr un goleuadau â'r llynedd, gyda nifer sylweddol ar hyd Ffordd y Pentref, lle cynhelir y Ffair Nadolig. Mae CBSC wedi dweud wrth y cyngor nad ydy hi'n ddiogel gosod goleuadau ar hyd Ffordd yr Orsaf, oherwydd lled y briffordd a gan nad ydy'r bracedau'n addas ar gyfer y rhaffau goleuadau. Cost yn cynnwys gosod, tynnu a chynnal a chadw gan CBSC. AMCAN GOST: £7000 gan gynnwys gwiriadau PAT

4. Llogi cwmni preifat i ddarparu goleuadau ledled y pentref. AMCAN GOST: £12,000

Cytunwyd y gellid dosbarthu'r poster ar gyfer y digwyddiadau sydd ar y gweill. Penderfynwyd derbyn a nodi pob un

10 Derbyn gwybodaeth am sesiynau Gwasanaeth Ieuenctid Conwy a chymeradwyo'r cynllun taliadau

Mynegwyd pryderon ynghylch sesiynau Gwasanaeth Ieuenctid Conwy gan nad ydyn nhw wedi llogi Neuadd Gymunedol y Dref. Mae'r clwb ieuenctid yn llwyddiannus dros ben, ac mae'r arweinydd ieuenctid wedi llwyddo i ddenu llu o ddilynwyr. Cytunodd y Cynghorydd Sir bod y gwasanaeth sydd wedi'i ddatblygu wedi ychwanegu

gwerth, gan gydweithio gyda gwasanaethau lles a chymorth addysg. Trafodwyd hyn yn drylwyr, ac roedd pawb yn gytûn y dylai'r gwasanaeth barhau. Clerc i egluro'r cyfreithlondebau drwy Un Llais Cymru a chrybwyll y mater unwaith eto yn y cyfarfod nesaf er mwyn dod i benderfyniad.

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn gwybodaeth am yr Arolwg Gwasanaethau Cynaliadwy a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer stondin yn y Co-op.

Dosbarthwyd amserlen ddrafft ar gyfer y sesiynau ac fe gytunwyd arni gan y cynghorwyr. Mae'r slot wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener y 29^{ain} o 3yp tan 6yh a dydd Sadwrn y 30^{ain} o 10yb – 3yp. Mae'r arolwg ar bapur yn barod, a bydd yr arolwg ar-lein yn barod erbyn Medi'r 29ain. Bydd y Clerc yn rhannu'r wybodaeth cyn gynted â phosibl.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Rhannu gwybodaeth am Gofrestr Buddiannau'r Aelodau

Pwysleisiodd y Clerc bwysigrwydd ychwanegu'r ffurflen a'r broses at y wefan. Caiff y ffurflen ei dosbarthu, ac mae gofyn i'r cynghorwyr ei chwblhau a'i dychwelyd erbyn dydd Gwener, Medi'r 15fed. Yna bydd y Clerc yn eu huwch lwytho i'r wefan.

Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Ariannol Gorffennaf ac Awst 2023

Estynnwyd diolch i Nisa am gytuno inni dalu gyda siec. Roedd y lluniaeth ar gyfer y diwrnod hwyl yn berffaith.

Penderfynwyd derbyn a nodi

<u>Cynigwyd gan y</u>	<u>Cyng. P Vangberg</u>	<u>Eiliwyd gan y</u>	<u>Cyng. C Jones</u>	<u>Yn Unfrydol</u>	<u>Penderfynwyd</u>
<u>cymeradwyo a nodi</u>					

14 Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Medi 2023

Lwfansau'r Cynghorwyr Tref – Mae Cyllid a Thollau EM wedi cadarnhau bod yn rhaid uwch lwytho'r lwfansau i system cyflogres Cyllid a Thollau EM. Caiff hyn ei ystyried fel taliad heb dystiolaeth o wariant felly mae'n rhaid ei restru.

Pensiwn Gwynedd – Oes modd i'r Cyngor Tref annog y darparwr i chwilio am fuddsoddwyr gwyrdd a gweithio'n gynaliadwy. Gellir anfon llythyr i'r perwyl hwn.

Caiff tri thaliad eu talu a'u hychwanegu at y cyfarfod nesaf fel taliadau ôl-ddyddiedig: King Ramps, aelodaeth Un Llais Cymru a hyfforddiant i gynghorwyr gan Un Llais Cymru.

<u>Cynigwyd gan y</u>	<u>Cyng. P Vangberg</u>	<u>Eiliwyd gan y</u>	<u>Cyng. C Jones</u>	<u>Yn Unfrydol</u>	<u>Penderfynwyd</u>
<u>cymeradwyo a nodi</u>					

15 Trafod materion cynllunio

0/51014 Tyddyn Angharad Uchaf, Ffordd y Dyffryn, Llanfairfechan LL33 OES. Dymchwel sied goed adfeiliedig presennol a chodi sied goed a storfa newydd ar y safle.

0/50999 Tu Hwnt i'r Afon, 9 Y Clos, Llanfairfechan LL33 OAG Cais i leihau ffenest bresennol yn wal talcen mewnlenwi newydd y garej presennol er mwyn gosod ffenestr fetel Crittall i gyd-fynd â'r holl ffenestri.

0/50988 Fron Park, Ffordd yr Orsaf, Llanfairfechan LL33 OAS Tocio 1 coeden ewcalyptws
Roedd hyn wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod a doedd dim arsylwadau Penderfynwyd derbyn a nodi

16 Derbyn gohebiaeth

1. E-bost am brosiect cymunedol arfaethedig ar gyfer 2024. Nod cyffredinol y Prosiect: I greu prosiect (digwyddiad) lle mae nifer sylweddol yn cymryd rhan ym mis Mai 2025 er mwyn denu'r cyhoedd prif ffrwd i gyfrannu tuag at y ddadl newid hinsawdd, gan ddefnyddio gweithgareddau creadigol ac annog / cefnogi'r rheiny sy'n cymryd rhan i lunio addewid Gweithredu ar yr Hinsawdd sy'n bersonol iddyn nhw. Clerc i gasglu gwybodaeth bellach ac adrodd yn ôl i'w dwyn i ystyriaeth. Mae cyfarfod wedi'i drefnu, a bydd y Clerc yn rhannu'r manylion er mwyn i'r Cynghorwyr sydd â diddordeb ddod iddo.

2. E-bost gan Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu Sara Owen sydd fyddai'n gadael ei swydd ym mis Hydref. Cytunodd y Cyngor Tref yr hoffan nhw ddiolch yn bersonol iddyn nhw am eu gwaith yn y dref yn y cyfarfod nesaf. Clerc i anfon gwahoddiad. Bydd swyddog yn ei lle hi sy'n derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd a byddai'n cychwyn yn y dref ym mis Tachwedd. Yn y cyfamser, gallwn gysylltu gyda'r swyddog rhawd gymunedol a pharhau i adrodd am ddigwyddiadau ar 101, 999 neu ar-lein.

Penderfynwyd derbyn a nodi

17 Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Cyfarfod gydag adran cymorth Busnes CBS Conwy Mae CBS Conwy wrthi'n gweithio ar gais ar gyfer cyllid Trawsnewid Trefi i dderbyn Wi-Fi am ddim mewn nifer o drefi yn Sir Gonwy. Does dim sôn am Wi-Fi yn benodol fel prosiect arfaethedig yn y cynllun Kickstarter ar gyfer Llanfairfechan ond fe nodwyd fod awydd am fwy o gysylltedd cymunedol. Mae angen rhagor o wybodaeth drylwyr ynghylch y prosiect. Mae'r tîm wrthi'n trefnu cyfarfod ar gyfer cynghorau tref fel bod modd rhannu'r wybodaeth. Soniodd y Cynghorydd Sir ei fod yn

gyfle gwych ac ni chaiff ei ddefnyddio er rhesymau drygionus. Maen nhw'n awgrymu y dylai'r Cyngor Tref gymeradwyo'r prosiect. Soniodd y Clerc ei fod wedi'i awgrymu ar gyfer Ffordd y Dyffryn yn unig i gychwyn ac ni fyddai hyn yn addas ar gyfer y dref gan fod y rhan fwyaf o'r siopau ar Ffordd yr Orsaf. Cwestiwn ynghylch y promenâd – mae CBS Conwy yn ystyried Ffordd yr Orsaf a'r Promenâd ond mae trafferthion cysylltu ar Ffordd yr Orsaf ar hyn o bryd. Mae'n rhaid casglu'r holl wybodaeth cyn gwneud penderfyniad, yn enwedig gan y byddai'n rhaid i'r Cyngor Tref dalu am osod a chynnal a chadw'r cyfarpar – mae'n rhaid dwyn hyn i ystyriaeth yng nghyd-destun y prosiect Gwasanaethau Cynaliadwy. Bu ymholiad ynghylch casglu data preifat – hoffan nhw dderbyn sicrwydd bod y data hwn yn cael ei gasglu a'i reoli gan ddeddfwriaeth diogelu data. Clerc i roi gwybod pan gaiff dyddiad y cyfarfod ei anfon a pharhau i gasglu gwybodaeth.

2. Bu i'r Pwyllgor Staffio gwrdd, a darparwyd adroddiad ar lafar ynghylch y sefyllfa staffio bresennol – mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd y 1^{af} i drafod cynlluniau'r dyfodol. At hyn, trafodwyd y pwysau o ran staffio, a gofynnodd y pwyllgor bod rhywun yn cymryd yr awenau dros y tai bach pan fo'r Gweithredwr Amgylcheddol ar wyliau. Clerc i gysylltu gyda glanhäwr i weithio pan fo'r Gweithredwr ar wyliau ac adrodd yn ôl.

3. Cyfarfod ynghylch y Llyfrgell gyda CBS Conwy.

Mae yna rai heriau ynghlwm â'r adeilad gan fod problemau cynnal a chadw sylweddol. Bwriedir cytuno ar GLG newydd ond nid oes sicrwydd o ran cynllun y cytundeb. Mae cwestiwn ynghylch a ddylid ffurfioli'r cydweithio gyda'r Cyngor Tref yn y CLG – archebion, ffurflen gymorth, y swyddog prosiect ac ati. Soniwyd, yn sgil y system archebu newydd yn y neuadd, gellir ychwanegu archebion y llyfrgell ato yn ogystal. Fodd bynnag, mae preswilydd yn awyddus i brynu adeilad fflat y llyfrgell ac maen nhw wedi cytuno i gadw'r llyfrgell ond dydy CBS Conwy heb fwrw iddi gyda'r opsiwn hwn. Parhau i adrodd yn ôl gan ddal ati i drin a thrafod gyda CBS Conwy.

Penderfynwyd derbyn a nodi

18 Derbyn materion brys i'w trafod

1. Roedd 17 wedi dod i'r digwyddiad codi sbwriel cymunedol ac fe gasglwyd 17 bag o sbwriel.
2. Pryderon ynghylch rhandir 26 yn y rhandiroedd gan fod gordyfiant sylweddol yno ac mae llygod mawr ar y safle. Wedi'i gyfeirio at Oruchwyliwr y Tîm Ymateb yn CBS Conwy.
3. Mynegwyd pryderon ynghylch pobl ifanc yn defnyddio cyffuriau yn y dref. Preswilydd yn bryderus dros ben ynghylch y diffyg adnoddau i bobl ifanc. Soniwyd nad pobl ifanc sy'n gyfrifol yn unig oherwydd mae pobl dros eu 30au yn cynnig cyffuriau i'r bobl ifanc. Er mai'r cyngor ydy y dylen roi gwybod i'r heddlu, mynegwyd pryderon am effeithiolrwydd gweithrediadau'r heddlu. Soniwyd ei fod yn cymryd amser maith i'r heddlu gasglu tystiolaeth ynghylch cyffuriau – gallai gymryd blynyddoedd i ddod i ganlyniad. Yr oll gallwn ni obeithio ei wneud ydy darbwyllio pobl ifanc rhag cymryd cyffuriau. Dydy'r preswilydd dan sylw ddim yn awyddus i adrodd i'r heddlu. Yn anffodus bu farw person ifanc yn y dref yn ddiweddar ac mae hyn yn peri pryder felly fe gytunwyd y dylid anfon adroddiad am ardal yr eglwys at yr heddlu a'r gwasanaethau ieuencid i weld a oes modd trefnu unrhyw waith allgymorth i fynd i'r afael â hyn. Clerc i anfon e-bost ac adrodd yn ôl.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9:40yh